

Cofion

- Parhau i gael gofal yn Ysbyty Glan Clwyd y mae Morfudd Williams (Henllan). Anfonwn ein cofion cynhesaf ati, gan weddio y bydd yn cryfhau bob dydd ac yn adnabod daioni Duw yn ei hamgylchynu. Da clywed fod Megan Evans (Llansannan) bellach wedi dod adref o'r ysbyty. Parhawn i gofio amdani hithau a phawb arall sydd wedi treulio amser yn yr ysbyty neu sydd heb fod cystal eu hiechyd yn ddiweddar. Hyderwn y byddant oll yn cael eu gwarchod a'u cynnal ac y bydd Duw yn ei holl ddaioni yn rhoi nerth a chysur iddynt yn eu hangen y dyddiau hyn.
- Cofiw'n hefyd y teuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu yn eu galar a'u hiraeth.

Cynorthwy-ydd Gweinidogaethol

Llawenydd yw cael cyhoeddi fod Gwion Dafydd wedi ei benodi'n barhaol i'r swydd uchod ac edrychwn ymlaen i gael ei gwmni a mwy eto o'i wasanaeth o fis Medi ymlaen. Gweddiwn y bydd bendith Duw arno ef a Sarah, a mawr yw ein diolch i'r ddau ohonynt am eu gweinidogaeth arbennig inni dros y flwyddyn ddiwethaf ac am rannu eu brwdfrydedd dros yr Efengyl â ni.

Wedi gorffen ei thymor ddiweddar Awst, mae Sarah yn awyddus i barhau i gynorthwyo'n wirfoddol gyda gwaith yr Ofalaeth a diolchwn am ei hymroddiad a'i pharodrwydd hithau i wasanaethu ymhob agwedd o waith yr eglwys.

I ddod

- **TAITH GERDDED HAMDDENOL** – nos Fercher, Gorffennaf 27ain. Cyfarfod ger Capel Peniel am 6.30. Os bydd y tywydd yn anffafriol, edrychwch ar dudalen flaen gwefan yr Ofalaeth neu cysylltwch â Mair i wybod fydd y daith ymlaen ai peidio. Croeso i bawb!
- **CYRSIAU HAF COLEG Y BALA:**
 - **Cwrs Ieuentid i flynyddoedd 7 – 11:** Gorffennaf 25-29
 - **Anhrefn Awst 8 – 12 oed:** Awst 8-11
 - **Souled Out 15+ oed:** Awst 13-18

Cofiwch bod £20 o ostyngiad i bob unigolyn fydd yn mynd i'r Coleg, diolch i haelioni Ymddiriedolaeth Robert Roberts ac Eglwys Bro Aled. Bydd angen i chi anfon ffurflen archebu ynghyd â blaendâl i sicrhau lle.

 - **Aduniad Llanw:** Medi 23-24



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26^{ain} Mehefin 2016

Darlleniad y Dydd

Luc 12: 35-40

(BCND tud.81 / BCN tud.74)

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

hyfforddiantdawn.com

Bore da a chroeso i'r oedfa. Dwi'n siŵr, beth bynnag ydi canlyniad y refferendwm yma, ein bod yn hapus i weld cefn ar y sgysiau di-ddiwedd am aros neu adael yr Undeb Ewropeaidd. Ond gobeithio y gwnewch chi faddau i mi am sôn amdano unwaith eto! Wrth wrando ar 'Pawb a'i Farn' nos Fercher, rhwng yr holl floeddio a ffraeo, y peth mwyaf amlwg ynghlwm â'r cwestiynau a'r dadleuon oedd y ffaith fod pobl hefo cymaint o angen ac eisiau am arweinyddiaeth. Mae pobl Cymru, Prydain a'r byd i gyd yn teimlo ar goll. Wrth inni edrych ar y pêl-droed, gwelwn fod cefnogwyr Cymru yn enwedig, yn dilyn eu tîm. Mae pel-droedwyr ein gwlad wedi arwain miloedd o Gymry i Ffrainc. Mae'r gobaith a'r llawenydd sydd i'w gael wrth gefnogi eu tîm wedi rhoi rheswm a phwrpas dros eu gwisg, y gwariant, a'r teithio. Mae cefnogwyr Cymru wedi cael achos i'w ddilyn. Mae'r adfywiad o ffydd pobl yng ngallu'r Cymry ar faes pêl-droed wedi bod yn anhygoel i'w wyllo. Ond diddorol ydy nodi'r teimladau sy'n dechrau dod rŵan ynghlwm â'r gobaith a'r ffydd yn y tîm, sef yr ofn a'r posibilrwydd y byddwn ni'n colli'r gêm nesaf.

Gwelwn fod y ddau beth yma sydd wedi cael cymaint o sylw yn y papurau newydd, ar y teledu, ac ar wal Facebook dros y misoedd diwethaf, yn dangos yr angen am rywbeth pendant, rhywbeth sefydlog. Rydan ni fel pleidleiswyr yn dyheu i rywun roi'r opsiwn cywir i ni fydd yn tawelu ein pryderon am y wlad hon. Fel cefnogwyr pêl-droed, mae'r blas yma o lwyddiant wedi cynhyrfu gobaith ynom ac rydym eisiau llwyddo, ond tydi'r gobaith yma ddim yn sicr – yn anffodus, mae yna siawns na fyddwn ni'n ennill Yr Ewros.

Ond mae gennym ni obaith pendant. Yr hyn 'da ni'n ei ddilyn, y graig bendant ydi cariad Duw, y cariad sydd wedi ei hoelio ar groes unwaith ac am byth. Mae Paul yn yr adnodau cyfarwydd yn Rhufeiniaid yn ein hatgoffa: *“na all nac angau nac einioes, nac angylion na thywysogaethau, na'r presennol na'r dyfodol, na grymusterau nac uchelderau na dyfnderau, na dim arall a grëwyd, ein gwahanu ni oddi wrth gariad Duw yng Nghrist Iesu ein Harglwydd.”* (Rhuf. 8:38-39), gan gynnwys canlyniad refferendwm a chanlyniad pencampwriaeth pêl-droed! Mae Iesu yn dweud wrthym fod ei deyrnas fel hedyn mwstard sydd AM dyfu (Marc 4), mae'n ein hatgoffa fod bendithion i ddod i'r rhai sy'n dlawd yn yr ysbryd, sy'n galaru, sy'n addfwyn, y rhai sy'n cael amser anodd ar hyn o bryd. Trwy gael ffydd a gobaith yn Iesu, mae daioni a bendithion i ddod (Mathew 5). Dydy'r math yma o addewid ddim i'w gael yng ngeiriau David Cameron, na throed chwith Gareth Bale. Dim ond yng Nghrist mae gobaith – gobaith aruthrol. Felly, wrth i ni feddwl am ein dyfodol, fel gwlad ac fel unigolion, dewch i ni sefyll yn gadarn yn y gobaith hwnnw y mae Crist wedi ei sicrhau i ni'n ddiamad. Dewch i ni edrych arno fo bob tro.

Darlleniad Wythnos Nesaf

2 Corinthiaid 8:1-7 (BCND tud.201 / BCN tud.183)

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Sarah

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 26^{ain}
SUL Y FRO

i-Grist am 10:30

Oedfa'r bore i deuluoedd holl eglwysi'r Ofalaeth,
yng Nghapel Coffa Henry Rees, Llansannan
yng nghwmni

Mr Andy Hughes, Cyfarwyddwr Saint y Gymuned

Fe wneir casgliad arbennig yn ystod yr oedfa tuag at Gynllun Chwarae Haf, Canolfan Noddfa. Yn dilyn yr oedfa, byddwn yn mynd i Gaernarfon, ac os bydd y tywydd yn caniatáu, cawn bicnic a chyfle i gymdeithasu yng Nghoed Helen cyn mynd i'r Hwylfan neu fynd am dro o gwmpas y dref. Byddwn yn ymuno **am 3.00 o'r gloch** gyda chynulleidfa Eglwys Gymunedol Noddfa (lle mae dwy weithwraig llawn amser a gyflogir gan EBC yn gweithio) mewn oedfa deuluol o dan arweiniad Mererid Mair. Mae Noddfa yn eglwys fywiog, anffurfiol a chroesawgar sy'n gwasanaethu un o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru. Mae gwaith plant ac ieuencid yn bwysig iawn ganddynt ac mae'n fan lle gall trigolion ardal Peblig droi i mewn am gymorth ymarferol gydag ystod eang o broblemau ac anawsterau. Mae'r eglwys hefyd yn cydlynu prosiect BARA Arfon, sef cynllun sy'n cefnogi cyn-garcharorion a theuluoedd carcharorion. (Cewch fwy o wybodaeth ar wefan www.henaduriaetharfon.org/noddfa)

(Bydd **map** o'r lleoliadau a'r manau parcio yng Nghaernarfon ar gael bore Sul yn yr oedfa yn Llansannan, ond cofiwch ddod â **picnic** hefo chi!)

- Mawrth – 28^{ain}
- **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Gwener – 1^{af}
- **C.I.C.** (Clwb Ieuencid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc bl.7-9 yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- Sadwrn – 2^{il}
- **Picnic Mawr 5 – 11 oed** yng Ngholeg y Bala. Cysylltwch â'r Coleg i gael mwy o fanylion ac i archebu lle (01678 520565 / colegybala@ebcpcw.org.uk)
 - **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel Rehoboth, Prestatyn. NI FYDD Y PWYLLGOR GWAITH YN CYFARFOD, ond trafodir gwaith yr Henaduriaeth yn brydlon am 4.30. Bydd oedfa gyhoeddus am 7.00 pryd y bydd blaenoriaid yn cael eu llongyfarch, a blaenoriaid newydd yn cael eu hordeinio.
- Sul nesaf – 3^{ydd}
- Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Gwion a bydd y Parch. Euros Wyn Jones yn pregethu.

Cyhoeddiadau

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Mr Joseff Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Llansannan

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

Tanyfron a Nantglyn

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Nantglyn am 2.00. Yn dilyn yr oedfa, bydd Cyfarfod Eglwys ar gyfer holl aelodau Capel y Waen.

Saron a Pheniel

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Gwion yn arwain oedfa i'r daith yn Groes am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Gwener – 1^{af} Bydd Clwb Cinio yr ardal yn cyfarfod yng Nghefn Berain am 12.00. Croeso mawr i bawb!

Sul nesaf – 3^{ydd} Bydd Sarah yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Manylion Cyswllt

Aneurin – 📧 aneurin@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870618 📞 07775 701102
Gwion – 📧 gwion@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07849 591163
Sarah – 📧 sarah@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870522 📞 07900 308461
Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com ☎️ 01745 870632 📞 07900 627536
Cyhoeddiadau i'w hanfon i Mair erbyn 9.00 nos Fercher, os gwelwch yn dda.

Eglwys Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.